



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod Bwrdd 5 Mawrth 2020

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Huw Foster Evans (HFE) (Prif Weithredwr)
Tegwen Ellis (TE) (Cyfarwyddwr Cynorthwyol)
Claire Williams (CW)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Davina Payne (DP)
John Graystone (JG)
Rosemary Jones OBE (RJ) (dros y ffôn)
Paul Marshall (PM)
Tanya Wigfall (TW) (Sylwedydd o Lywodraeth Cymru)
Kirsty Payne (KP) (Yr Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso, cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y cyfarfod gan groesawu pawb. Estynnodd SD groeso arbennig i Tegwen Ellis fel y Prif Weithredwr newydd ac i HFE gan mai hwn fydd ei gyfarfod olaf o'r Bwrdd fel Prif Weithredwr.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

Mynegodd SD gydymdeimlad y Bwrdd â Michaela Renkes. Nid yw'n gallu cynrychioli Llywodraeth Cymru ar yr achlysur hwn.

Aeth SD drwy'r log gweithredu. Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r broses ar gyfer penodiadau cyhoeddus i'r Bwrdd yn cael ei rheoli gan SD gyda chymorth gan Michaela Renkes. Mae SD mewn cysylltiad â'r Uned Cyrff Cyhoeddus ac mae'n gwneud apwyntiad gyda Cymwysterau Cymru i drafod y broses y maen nhw wedi ymgymryd â hi'n ddiweddar.
- Mae HFE a TW wedi cael sgwrs am greu cysylltiadau â chymheiriaid yn Lloegr ac mae hyn yn mynd rhagddo. Cyflwynodd Steve Munby seminar i'r cymdeithion ym mis Chwefror gan helpu'r Academi i fanteisio ar ddysgu o Loegr. Tynnodd TW sylw at y gwahaniaethau mawr rhwng y system yng Nghymru ac yn Lloegr sy'n golygu nad oes llawer o achlysuron i ni gydweithio â chydweithwyr yn Lloegr – yn enwedig ar yr agenda arweinyddiaeth. Mae gan Gymru fwy yn gyffredin â system yr Alban ac Iwerddon.

- Cam Gweithredu 106 – Holodd JG am y cofnodion dwyieithog gan mai dim ond yr agenda sy'n ddwyieithog ar hyn o bryd. Esboniodd KP fod angen cadarnhau'r cofnodion cyn y gellir eu cyfieithu rhag ofn y bydd angen gwneud unrhyw newidiadau.
- Mae'r holl gamau gweithredu eraill yn parhau.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- **Cam Gweithredu 83 – Cam Gweithredu i'w newid i SD**
- **Cam Gweithredu 118 – mae angen ei newid i 'rannu â phob cydymaith'**
- **Eitem canlyniadau PISA – mae angen newid y dyddiad i 2018. O fewn yr un eitem mae angen newid y pedwerydd pwynt bwled i 'gall myfyrwyr sefyll y prawf yn Gymraeg neu yn Saesneg ond mae angen iddo fod yn eu prif iaith dysgu.'**
- **Nid RJ yw cydlynnydd PISA ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'n gynghorydd i Lywodraeth Cymru ar PISA. Dileu 'fe'i llongyfarchwyd ar ei phenodiad fel Cydlynnydd PISA i Lywodraeth Cymru.'**
- **Angen newid y 4ydd pwynt bwled yng nghamau gweithredu tudalen 3 o gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg i 'Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb'**
- **Cynnwys rhifau tudalen yn yr holl gofnodion o hyn ymlaen**

2. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd HFE ei adroddiad olaf fel Prif Weithredwr y Bwrdd. Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Tynnodd HFE sylw arbennig at benodiad Tegwen Ellis i swydd y Prif Weithredwr a llongyfarchodd Tegwen yn ffurfiol ar ei phenodiad. Diolchodd HFE i SD a TE am barhau gyda momentwm a gwaith gwych yr Academi dros y 6 mis diwethaf.
- Cyfeiriodd HFE at benodiad yr archwilwyr mewnol gan ychwanegu ei fod yn teimlo y bydd y gwasanaeth y gallant ei gynnig o fudd mawr i'r Bwrdd a'r Academi yn gyffredinol. Diolchodd HFE i KP am y gwaith y mae hi wedi'i wneud wrth sefydlu'r swyddogaeth archwilio mewnol.
- Diolchodd HFE i TE am ei gwaith yn ailfywiogi'r grŵp rhanddeiliaid.
- Tynnodd HFE sylw at ymateb yr Academi Arweinyddiaeth i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru (CC) a llongyfarchodd CC ar eu hagwedd at yr ymgynghoriad hwn.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cofrestru ar gyfer astudiaeth newydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ac wedi gofyn i Chris Lewis fod yn rhan o'r adolygiad hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn hefyd i Chris Lewis fod yn rhan o brosiect newydd yn ymwneud â chreu adnoddau ymholi a dysgu proffesiynol.

- Soniodd HFE am y broses o recriwtio'r cohort newydd o gymdeithion ac mae'n teimlo y byddant yn gaffaeliad mawr i'r Academi a'r system yn gyffredinol.
- Diolchodd HFE i TE a KP am drefnu a hwyluso'r ymweliadau rhyngwladol ag Ottawa â Gwlad y Basg.
- Diolchodd HFE i Chris Lewis am y cyfraniad hwn i'r adroddiad ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect *Arwain Dysgu Proffesiynol*.
- Trafodwyd yn fanwl y gwaith o recriwtio a chadw staff a wnaed gyda Chyngor Caerdydd. Hysbysodd TW y Bwrdd fod gwaith yn cael ei wneud yn y maes hwn hefyd gan Deb Woodward yn rhanbarth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.
- Rhannodd CW y ffaith fod Deb Woodward wedi cysylltu â'i hysgol i gyfrannu at y prosiect *Arwain Dysgu Proffesiynol*.
- Rhannodd TW y ffaith fod y prosiect *Arwain Dysgu Proffesiynol* yn rhan o gyfres o adnoddau a fydd ar gael i'r proffesiwn mewn perthynas â HMS. Mae'n gyfle gwych i'r Academi Arweinyddiaeth gyrraedd holl arweinwyr yr ysgolion. Mae'r amseru'n hollbwysig er mwyn sicrhau'r mewnbwn mwyaf posibl.

Mynegodd SD ei diolch arbennig ei hun ac ar ran y Bwrdd i HFE am ei adroddiad a'r holl adroddiadau y mae wedi'u cyflwyno ers lansio'r Academi Arweinyddiaeth. Diolchodd SD yn ddifffuant hefyd i HFE am ei ymrwymiad a'i waith amhrisiadwy, fel rhan o'r bwrdd cysgodol ac fel Prif Weithredwr.

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd PM gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a diolchodd i KP am gwblhau'r cofnodion mor gyflym.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd cynnydd yn y risg i'r maes marchnata a chyfathrebu oherwydd nad oedd gan yr Academi Arweinyddiaeth strategaeth gyfathrebu/farchnata ffurfiol
- Tynnodd DP sylw at drafodaeth debyg yn ymwneud â chyfathrebu a marchnata a gafwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol. Mae DP wedi tynnu sylw at y mater o gyfathrebu a marchnata sawl gwaith ac mae'n teimlo nad yw wedi cael sylw priodol. Mae'r cynllun cyfathrebu cychwynnol (a luniwyd gan Four Cymru) yn cynnwys manylion nifer o eitemau nad ydynt wedi cael eu gweithredu. Holodd DP beth oedd Four Cymru wedi'i gwblhau fel rhan o'u contract cychwynnol.
- Esboniodd TE fod Four Cymru yn ymateb i geisiadau am waith ond nid oes gan yr Academi y gallu ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â hyn. Eir i'r afael â hyn yn y strategaeth ehangach
- Cytunodd TE fod angen i'r Academi wneud mwy ond bod angen aelod staff arnom sy'n gallu gwneud y gwaith. Awgrymodd MJ sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen a oedd yn cynnwys aelodau'r Bwrdd a staff.
- Rhannodd TE neges oddi wrth y prifathrawon y mae hi wedi ymgysylltu â nhw sy'n dweud nad oes ganddyn nhw amser i wyllo fideos a darllen blogiau bob

amser ond yr hoffent i rywun ddod allan i siarad â nhw am waith yr Academi Arweinyddiaeth

- Rhannodd TW y ffaith fod yr OECD ar fin cyhoeddi ei adolygiad nesaf. Mae Llywodraeth Cymru i fod i gyhoeddi dogfen yn cynnwys manylion yr hyn a ddisgwylir gan y proffesiwn o ran y cwricwlwm newydd. Mae angen i negeseuon yr Academi Arweinyddiaeth (ynghyd â gweddill yr haen ganol) gyfleu cynnwys y cyhoeddiadau hyn. Bydd TE yn bresennol yn lansiad adolygiad OECD a dogfen Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd.
- Mae CW yn teimlo nad yw'r cofnodion yn adlewyrchu holl arlliw'r sgwrs ynghylch cyfathrebu a gafwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae gan CW syniad mwy gwybodus am waith yr Academi Arweinyddiaeth oherwydd ei bod yn aelod o'r Bwrdd. Nid yw'r holl wybodaeth wedi deillio o fod yn bennaeth.
- Soniodd DP am 'Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol' a'r gwaith y maen nhw'n ei wneud ym maes cyfathrebu a gwaith proffil. Maen nhw'n dda iawn yn y maes cyfathrebu a dylai hyn fod yn rhywbeth y dylem ei efelychu
- Soniodd CW am y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod AARAC am symud archwiliad ar farchnata i Chwarter 1 2021/22. Cytunwyd bod hyn yn syniad da.
- Trafodwyd y cynllun archwilio yn y cyfarfod a chytunwyd arno ac mae'n dangos gweithgarwch archwilio dros y 15 mis nesaf. Bydd yr archwiliad cyntaf yn ystyried strwythur a llywodraethu corfforaethol a bydd ar gael yn y cyfarfod ym mis Ebrill.
- Trafodwyd argymhelliad adroddiad yr archwiliad allanol. Bwriedir cynnal archwiliad ar gyfer gweithgareddau ariannol yn ddiweddarach yn y flwyddyn a fydd yn cynnwys ymateb y rheolwyr i'r argymhelliad
- Mae'r pwyllgor yn symud tuag at greu fframwaith sicrwydd ar gyfer y Bwrdd i gyd-fynd â'r gofrestr risgiau.
- Esboniodd PM y diagram risg 'GUARD' i'r Bwrdd a chafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch risg mewnol ac allanol. Teimlai'r Pwyllgor fod hon yn ddogfen ddefnyddiol i'w hadolygu ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i risgiau'n gywir.
- Tynnodd JG sylw at y ffaith y bydd y risgiau sydd wedi'u dyrannu i HFE angen eu trafod. Esboniodd PM fod y gofrestr risgiau'n 'fyw' hyd at y cyfarfod diwethaf. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r gofrestr eto yn y cyfarfod nesaf a bydd y risgiau sydd wedi'u dyrannu i HFE yn cael eu trafod bryd hynny.
- Diolchodd CW i PM am gadeirio'r cyfarfodydd ac am ei arweiniad
- Diolchodd RJ i SD am ei rôl sylweddol yn arwain yr Academi drwy'r 3 mis diwethaf yn ei rôl fel cadeirydd estynedig

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- **Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried llunio strategaeth gyfathrebu. MJ a DP ac maen nhw'n hapus i fod yn rhan o'r gwaith gyda TE a Richard Monteiro (un o gymdeithion yr Academi)**
- **Cynllun archwilio mewnol i'w rannu gyda'r Bwrdd**

- **Dosbarthu'r diagram cyfarfod GUARD i holl aelodau'r Bwrdd**
- **Newid RM i RJ yn y cofnodion**
- **Symud yr archwiliad ar farchnata i Chwarter 1 2021/22.**

4. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Cyflwynodd JG gofnodion y cyfarfod i'r Bwrdd.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi derbyn cadarnhad ar lafar gan CThEM nad yw'r sefydliad yn gorfod talu treth gorfforaeth. Diolchodd JG i MP am dynnu sylw at yr arbediad posibl hwn. Mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i egluro'r sefyllfa. Cadarnhaodd TW fod tîm cyllid Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y swm yn rheswm dilys dros danwariant a'u hymateb cychwynnol oedd dweud y byddai gostyngiad yn cyfateb i'r swm hwnnw yn grant yr Academi Arweinyddiaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae KP wedi ymateb i Lywodraeth Cymru gan ofyn a fyddai modd i ni gadw'r tanwariant heb effeithio ar y grant ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Bydd KP a TE yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn cynnig y gweithgareddau y byddai'r arian yn eu hariannu os oedd modd i ni ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf heb effeithio ar y cytundeb grant newydd.
- Gofynnodd MJ pam nad ydym yn gorfod talu treth gorfforaeth ac eglurwyd mai natur ein ffrydiau incwm oedd yn gyfrifol am hyn.
- Mae proses recriwtio'r Prif Weithredwr bellach wedi'i chwblhau ac ni chafwyd unrhyw apeladau. Roedd Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn canmol y broses yn fawr.
- Bydd cyflogaeth HFE gyda'r Academi Arweinyddiaeth yn gorffen yn swyddogol ar 30 Ebrill 2020 ond bydd yn trosglwyddo rôl y Prif Weithredwr i TE ar 1 Ebrill 2020.
- SD a TE i drafod rôl estynedig y cadeirydd o 1 Ebrill. Diolchodd JG i SD am ei rôl estynedig fel cadeirydd. Diolchodd SD i'r staff hefyd am ymateb i'r gofynion.
- Mae holl staff yr Academi Arweinyddiaeth wedi cael eu symud i gontractau parhaol. Mynegodd HFE fod hon wedi bod yn broses gadarnhaol i'r staff a diolchodd i'r Bwrdd am eu gwaith ar y mater hwn.
- Mae materion yn ymwneud â chyfathrebu a marchnata eisoes wedi'u codi a'u trafod.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- **TE a SD i drafod rôl estynedig SD fel cadeirydd o 1 Ebrill 2020.**
- **Bydd SD yn hysbysu Llywodraeth Cymru o'r dyddiad swyddogol y bydd ei rôl estynedig yn dod i ben.**

5. Y diweddaraf ar broses recriwtio Prif Weithredwr

Gadawodd TE yr ystafell ar gyfer yr eitem hon.

Eglurodd SD i'r Bwrdd y broses a ddilynwyd gydol y broses recriwtio.

Cafwyd trafodaeth gyfrinachol am y broses

Teimlai RJ fod cymhlethdod y rôl a'r angen am feddwl yn strategol wedi dod i'r amlwg yn y cyfweiliad. Diolchodd i HFE a llongyfarchodd TE.

Rhannodd TW y ffaith fod y Gweinidog a Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i benodiad y Prif Weithredwr newydd. Pwysleisiodd TW mai'r broblem gyda phenodi ymgeisydd mewnol yw nad yw capasiti'n cael ei gynyddu. Diolchodd y pwyllgor penodiadau i KP am ei gwaith gydol y broses.

6. Y diweddaraf am y Prif Weithredwr newydd

Ailymunodd TE â'r cyfarfod. Gadawodd HFE y cyfarfod am 11:37.

Rhoddodd TE yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei gwaith ers y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd a'i chynlluniau ar gyfer 1Ebrill ymlaen.

Trafodwyd yr eitemau canlynol:

- Mae nifer o gymdeithion wedi cytuno i ymgymryd â rolau ychwanegol er mwyn meithrin gallu nes bod Cyfarwyddwr Cynorthwyol (CC) newydd yn ei swydd. Bydd y rolau yn y meysydd canlynol: cymdeithion; cyfathrebu; arloesi; cymeradwyo; a sicrhau ansawdd. Bydd y rolau'n parhau tan 30 Medi 2020, a'r gobaith yw y bydd y rolau'n pontio gyda'r rôl CC.
- Mae cyfweiliadau wedi'u cynnal ar gyfer y 3^{ydd} cohort o gymdeithion. Rhoddwyd 12 ar y rhestr fer ond tynnodd un yn ôl oherwydd rhesymau personol. Cafodd 11 o'r ymgeiswyr gyfweiliadau a bydd 10 yn cael eu penodi yn amodol ar gymeradwyaeth y cynrychiolydd rhanbarthol a chadeirydd y llywodraethwyr. Cynhelir y sesiwn sefydlu ar 1 a 2 Ebrill a bydd y Gweinidog yn mynd i'r cinio croeso ar y 1 Ebrill. Yn dilyn yr alwad benodol, mae cynnydd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lleoliadau ffydd, lleoliadau uwchradd ac mewn ffederasiynau ysgolion bach. Mae cynnydd hefyd mewn lleoliadau ym Mhowys.
- Bydd hyfforddiant Sicrwydd Ansawdd (SA) yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf. Bydd y ddarpariaeth gyntaf yn mynd drwy'r broses ddiwedd Mai/dechrau Mehefin. Bydd dwy rownd o SA y flwyddyn, a gyhoeddir ymlaen llaw, felly nid yw'n annisgwyl i ddarparwyr. Rhannodd TW y ffaith y bydd SA yn cael sylw yn yr adroddiad OECD newydd.
- Holodd MJ ynglŷn â'r hyfforddiant SA ac eglurodd TE mai hyfforddiant yn y broses SA fydd yr hyfforddiant hwn, yn hytrach na hyfforddiant ar safonau cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Gofynnodd MJ a allai rhyw fath o hyfforddiant cydnabyddedig i Archwilwyr fod yn ddefnyddiol. Bydd TE yn ymchwilio i'r mater. Mae MJ yn teimlo y bydd angen rhywfaint o hyfforddiant penodol ar bobl ar sut i ymdrin â 'diddymu' cymeradwyaeth.
- Mae'r swydd-ddisgrifiad ar gyfer CC wedi'i gwblhau ac nid oes unrhyw newidiadau mawr i'r rôl. Bydd disgwyl i'r CC weithio tuag at gymhwyster lefel

8. Gofynnodd CW a oes unrhyw un wedi mynegi diddordeb a chadarnhaodd TE nad yw'r hysbyseb yn fyw eto. Y dyddiad cau yw 24 Ebrill sy'n rhoi amser i ymgeiswyr y naill ochr a'r llall i wyliau'r Pasg. Bydd y penodiad yn cael ei wneud ar 11 Mai fel y gall yr ymgeisydd llwyddiannus ddechrau ar 1 Medi yn dilyn cyfnod rhybudd o dri mis.

- Nid yw arloesi wedi'i gynnwys yn y swydd-ddisgrifiad ar gyfer CC, ond mae'n faes sydd angen llawer o sylw. Mae TE wedi bod yn gweithio gyda'r Athro Andy Penaluna er mwyn annog pobl yn y sector i feddwl yn arloesol
- Mae TE yn poeni ein bod yn Academi Arweinyddiaeth i bawb, ond dim ond ysgolion rydym yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd. Nid yw'r capasiti gennym i wasanaethu pob lleoliad yn y sector ar hyn o bryd. Mae TE wedi trafod strwythur staffio posibl gyda chydweithwyr o Gonsortium Arweinyddiaeth y 3 Gwlad, ac mae wedi ystyried strwythur SCEL cyn iddo gael ei drosglwyddo i Education Scotland. Mae TE wedi trefnu cyfarfod gyda SD a JG i gyflwyno strwythur arfaethedig o fewn terfynau ein cyllideb.
- Hoffai TE gynnig secondiadau er mwyn adnewyddu'r strwythur staffio yn rheolaidd. Byddai un secondiad yn arwain ar arloesi a byddai secondiad arall yn arwain ar Ddatblygu Arweinyddiaeth a Sicrhau Ansawdd ar gyfer sectorau ar wahân i ysgolion. Mae Llesiant yn faes allweddol arall ac yn fater o bryder i'r undebau. Dylai hyn hefyd fod yn rhan o strategaeth yr Academi Arweinyddiaeth ar gyfer cadw staff. Byddai angen i'r secondiadau hyn gael eu cefnogi gan gymorth gweinyddol a gweithredol hefyd.
- Holodd DP ynghylch argymhelliad TE ar gyfer y swyddog cyfathrebu. Mae TE yn argymhell ein bod yn cynyddu'r cyflog ac yn ei gwneud yn swydd ar lefel uwch. Roedd DP yn cytuno fod hyn yn syniad da.
- Diolchodd SD i TE am ei chyflwyniad a mynegodd pa mor bwysig yw'r gallu i ddogfennu'r hyn y mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi'i gyflawni hyd yn hyn a lle mae wedi ychwanegu gwerth. Teimla TW y byddai'n syniad da i'r Bwrdd wneud buddsoddiad yn y dimensiwn gwleidyddol cyn yr etholiad nesaf. Cytunodd TW fod gwaith yr Academi Arweinyddiaeth yn ennill momentwm ond bod angen gwella'r elfen gyfathrebu.

7. Dyddiad cyfarfodydd y dyfodol

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Mai. Mae angen i holl aelodau'r Bwrdd gysylltu â KP i gadarnhau dyddiadau

8. Eitemau ar gyfer yr agenda yn y dyfodol a gair i gloi

Trafodwyd yr eitemau canlynol:

- Holodd JG am yr argyfwng COVID-19 posibl ac a oedd cynllun ar waith pe bai'r sefyllfa'n gwaethygu. Cadarnhaodd KP y gall pob aelod staff weithio o bell os oes angen. Hoffai JG greu cynllun parhad busnes a chytunodd y Bwrdd y gallai'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol ei ystyried.

- Hoffai RJ gael copi o gofnodion y cyfarfod rhanddeiliaid diweddaraf. Bydd KP yn eu cylchredeg i holl aelodau'r Bwrdd pan fyddant wedi eu cwblhau.
- Tynnodd RJ sylw'r Bwrdd at gyhoeddi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Hoffai RJ eitem fer yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd ar ddimensiwn arweinyddiaeth y cwricwlwm newydd. Bydd TW yn gwneud cais i'w chydweithwyr cwricwlwm i weld a all rywun ddod draw i siarad â'r Bwrdd. Cynigiodd CW roi enghraifft ymarferol o sefyllfa ei hysgol hi mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd.

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol

- **TW i drefnu i gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf i drafod dimensiwn arweinyddiaeth y Cwricwlwm newydd i Gymru gyda'r Bwrdd. Os na all cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fod yn bresennol, gellid gofyn i CW gyflwyno enghraifft ymarferol o'r cwricwlwm newydd ar waith.**
- **Dylai pob eitem arall ar gyfer yr agenda yn y dyfodol gael ei hanfon at KP.**

Diolchodd SD i bawb am fynychu'r cyfarfod a daeth y cyfarfod i ben am 12:51.

Log gweithredu

Rhif.		Perchnogi	Terfyn Amser	Statws
12	NAEL i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu hanesion achos	HFE	Medi 2019	Ar y gweill
83	Gwirio'r broses penodiadau cyhoeddus ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y dyfodol	SD	Medi 2019	Ar y gweill
84	Adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl	SD	Gorffennaf 2020	Ar y gweill
105	Agenda – Tegwen Ellis ddod i gyfarfod o'r bwrdd yn y dyfodol i gyflwyno ei gwaith Doethuriaeth hyd yma	KP	Medi 2020	
106	Pob agenda ac unrhyw gofnodion i fod yn ddwyieithog yn y dyfodol	KP	Ionawr 2020	Ar y gweill
107	Cyhoeddi cofnodion y bwrdd ar wefan yr Academi Arweinyddiaeth	KP	Ionawr 2020	Ar y gweill
111	Ymchwilio i rwydweithiau i ganfod cysylltiadau posibl yn Lloegr	Pawb	Ionawr 2020	Ar y gweill
113	Penaethiaid y ddau is-bwyllgor i gyfarfod a thrafod y strategaeth ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth	JG a PM	Ionawr 2020	
115	Creu ail gofrestr risg ar gyfer risgiau gweithredol	Pwyllgor A a SR	Ionawr 2020	

118	Rhannu gwybodaeth am iaith y profion PISA gyda 2 Gydymaith	OS	Mawrth 2020	Cwblhawyd
120	Adolygu llwyddiannau'r Academi Arweinyddiaeth gyda'r archwilwyr	Pwyllgor A a SR	18 Chwefror 2020	Cwblhawyd
121	Diwygio'r datganiad Llywodraethu fel yr amlinellir yn y cofnodion	OS	Mawrth 2020	Cwblhawyd
125	Creu strategaeth gyfathrebu unwaith y penodir y swyddog cyfathrebu	Pawb	Medi 2020	
126	Diwygio'r cofnodion blaenorol	KP	Ebrill 2020	Cwblhawyd
127	Ychwanegu rhifau'r tudalennau at y cofnodion o hyn ymlaen	KP/OS	Ebrill 2020	Cwblhawyd
128	Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y strategaeth gyfathrebu	OS	Ebrill 2020	Cwblhawyd
129	Rhannu'r cynllun archwilio Mewnol a'r diagram GUARD gyda'r Bwrdd	KP	Ebrill 2020	Cwblhawyd
130	Newid RM i RJ yng nghofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	KP	Ebrill 2020	Cwblhawyd
131	Symud yr archwiliad ar farchnata i Chwarter 1 2021/22.	KP	Ebrill 2020	
132	Trafod rôl estynedig SD fel Cadeirydd o 1 Ebrill 2020.	SD/TE	Ebrill 2020	Cwblhawyd
133	Hysbysu Llywodraeth Cymru pan fydd rôl estynedig SD fel Cadeirydd yn dod i ben	SD	Mai 2020	
134	Cynrychiolydd o Lywodraeth i fynd i'r cyfarfod nesaf i drafod y cwricwlwm newydd os na all cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fod yn bresennol, gofyn i CW arwain	TW/CW	Medi 2020	